cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
# Tystiolaeth o Fanylion Personol

Bydd angen i chi anfon tystiolaeth atom i gadarnhau'ch manylion, a dylech ddefnyddio'r wybodaeth isod i ddarganfod pa dystiolaeth wreiddiol fydd angen i chi ei hanfon.

Dylech anfon llungopïau o'ch tystiolaeth oni bai y nodir fel arall. Byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol.

**Os oes gennych basbort y Deyrnas Unedig dilys, rhowch y manylion hyn ar y ffurflen gais. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi anfon eich pasbort atom.**

| Os byddwn wedi gofyn am dystiolaeth o: | Darparwch un o'r canlynol: |
|---|---|
| **eich dyddiad geni** | • eich manylion pasbort dilys y Deyrnas Unedig yn unol â'r cais yn adran 5 y ffurflen gais; **neu**<br>• eich pasbort **gwreiddiol** dilys nad yw o'r Deyrnas Unedig; **neu**<br>• eich tystysgrif geni/mabwysiadu **wreiddiol**; **neu**<br>• eich Cerdyn Adnabod Cenedlaethol **gwreiddiol**; **neu**<br>• eich Caniatâd Preswylio Biometrig **gwreiddiol**. |
| **eich cyfeiriad** | • bil nwy, trydan neu fil tebyg, dyddiedig o fewn y tri mis diwethaf; **neu**<br>• eich bil y dreth gyngor am y flwyddyn bresennol; **neu**<br>• eich datganiad Budd-daliadau diweddaraf.<br>**Gall y prawf fod yn enw eich rheini/gwarchodwr/partner.** |